Polisi a Gweithdrefn Chwythu'r Chwiban
Prifysgol De Cymru

Teitl: Polisi a Gweithdrefn Chwythu'r Chwiban			
Fersiwn	Dyddiad Cyhoeddi	Disgrifiad Dlwygledig	Awdur
1	Tachwedd 2022		Andrew Davies
2	Ionawr 2023	ychwanegwyd troedyn	Andrew Davies
3	Abrill 2024	Newid am 4.1.4, eglurder ynghylch rôl Aelodau Gweithredol	Andrew Davies

TROSOLWG

Mae chwythu'r chwiban yn ymwneud â chodi pryderon lle mae peryglon i eraill neu lle mae diddordeb cyhoeddus dilys. Mae'n wahanol i'n gweithdrefnau eraill ar gyfer codi pryderon neu gwynion am nad yw wedi'i fwriadu ar gyfer cwynion personol sy'n ymwneud â thelerau ac amodau gwaith neu astudio, aflonyddu, bwlio neu wahaniaethu. Mae gan y Brifysgol bolisïau ar gyfer cefnogi'r rhai sy'n codi pryderon personol ar wahân i'r polisi hwn.

Amddiffyn a Chefnogi

Nod y polisi a'r weithdrefn hon yw cynnig amddiffyniad a chefnogaeth i Chwythwyr Chwiban sy'n datgelu gwybodaeth y maen nhw'n rhesymol yn credu sy'n wir ac yn cael ei wneud er budd y cyhoedd. Rydym yn annog diwylliant o fod yn agored a byddwn yn cefnogi'r rhai sy'n codi pryderon gwirioneddol. Ni fydd Chwythwyr Chwiban yn dioddef unrhyw driniaeth niweidiol yn gysylltiedig â chodi pryder. Mae manylion ychwanegol am amddiffyn a chefnogi i'w cael yn y polisi.

Codi pryder anffurfiol o ddiddordeb i'r cyhoedd gyda:

Rheolwr

Rheolwr Pwnc Academaidd / Arweinydd Cwrs

Rheolwr Perthynas

- Dylai gweithwyr godi'r pryder gyda'u rheolwr
- Dylai myfyrwyr a phrentisiaid godi'r pryder gyda'u Harweinydd Cwrs
- Dylai cyflenwyr godi'r pryder gyda'u Rheolwr Perthynas
- Dylai aelodau'r cyhoedd godi'r pryder gydag Ysgrifennydd y Brifysgol *(Os yw eich pryder yn ymwneud â'r person cyfrifol uchod dylech godi gyda'r rheolwr uchaf nesaf neu Ysgrifennydd y Brifysgol)*

Codi pryder ffurfiol o ddiddordeb i'r cyhoedd gydag:

Ysgrifennydd y Brifysgol

- Dylid codi pob datgeliad gwarchodedig o dan y Ddeddf Datgelu er Lles y Cyhoedd gydag Ysgrifennydd y Brifysgol ynghyd ag unrhyw bryderon eraill sy'n cael eu codi'n ffurfiol lle mae unigolyn yn dymuno bod y pryder yn cael ei gofnodi.

Os yw'r pryder yn ymwneud ag Ysgrifennydd y Brifysgol, codwch eich pryder gyda'r Swyddog Chwythu'r Chwiban nesaf.

Y Swyddog Chwythu'r Chwiban nesaf

- Is-ganghellor
- Cadeirydd Bwrdd y Llywodraethwyr
- Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio

(Caiff y pryder ei gydnabod, ei gofnodi, ei adolygu ac ymchwilir iddo (lle bo hynny'n briodol)

- Byddwch yn cael eich hysbysu os nad oes penderfyniad i roi camau neu ymchwiliad ar waith
- Os na chymerir unrhyw gamau, cewch godi'r pryder gyda'r Uwch Swyddog Chwythu'r Chwiban nesaf
- Os oes ymchwiliad, efallai y cewch wybod am gynnydd a'r amserlen debygol, yn dibynnu ar natur gyfrinachol y pryder.

Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio

Os nad ydych yn fodlon â'r modd y mae'r Brifysgol wedi cynnal yr ymchwiliad, cewch fynd â'ch pryder i Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio.

1. CYFLWYNIAD

1.1 Ystyr 'Chwythu'r chwiban' yw adrodd am gamymddwyn difrifol a amheuir, gweithredoedd anghyfreithlon neu fethu â gweithredu o fewn y Brifysgol. Nod y polisi hwn a'r drefn hon yw annog cydweithwyr ac eraill sydd â phryderon difrifol am unrhyw agwedd ar gamymddwyn yng

ngwaith y Brifysgol i ddod ymlaen er lles y cyhoedd a lleisio'r pryderon hynny.

1.2 Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo at y safonau uchaf o fod yn agored, yn gywir ac yn atebol. Mae'n ceisio gweithredu mewn modd cyfrifol ac ystyried gofynion y cyrff cyllido, y safonau mewn bywyd cyhoeddus a nodir yn adroddiadau Pwyllgor Nolan, a'r egwyddorion rhyddid academaidd a ymgorfforir yn erthyglau'r Llywodraeth.

1.3 Fodd bynnag, mae pob sefydliad yn wynebu'r risg y gall pethau fynd o chwith neu o gamymddygiad diarwybod. Rydym yn cymryd camymddygiad o ddifrif ac rydym wedi ymrwymo i gynnal ein busnes gyda gonestrwydd a chywirdeb ac rydym yn disgwyl i bob cydweithiwr a phartner a'n cyflenwyr gynnal safonau uchel hefyd. Rydym yn annog cyfathrebu agored gan bawb sy'n gweithio i ni a'r myfyrwyr hynny sy'n derbyn ein gwasanaethau ac rydym am i bawb deimlo'n ddiogel o ran codi pryderon.

1.4 Nod y polisi hwn a'r weithdrefn hon yw rhoi cyfle i Chwythwyr Chwiban godi pryderon a chael eu hamddiffyn rhag erledigaeth. Nid yw'n berthnasol a ydy unigolyn sy'n codi pryder wedi gwneud camgymeriad ynghylch y pryder — nid oes rhaid i Chwythwyr Chwiban brofi unrhyw beth am yr honiad y maent yn ei wneud ond mae'n rhaid iddynt gredu'n rhesymol fod y datgeliad yn sylweddol wir, ac wedi'i wneud er lles y cyhoedd (e.e. nid yw'n achwyniad personol ond yn bryder wedi'i godi er lles y cyhoedd ehangach) a bod y wybodaeth sydd ganddynt yn tueddu i ddangos camymddygiad.

1.5 Rydym yn annog pob chwythwr chwiban i godi pryderon gyda'r Brifysgol er mwyn i ni allu mynd i'r afael â nhw a gwella. Pwrpas y weithdrefn hon yw hyrwyddo diwylliant agored rhwng y Brifysgol a'i chydweithwyr a'i chymuned ehangach, a darparu proses i gynorthwyo unigolion sy'n credu eu bod wedi sylwi ar gamymddygiad neu amhriodoldeb, gan gynnwys datgeliadau a gwmpesir gan y Ddeddf Datgelu er Lles y Cyhoedd. Nid yw wedi'i gynllunio i godi cwynion personol na chwestiynu penderfyniadau ariannol neu fusnes a wneir gan y Brifysgol.

1.6 Gellir defnyddio'r weithdrefn hon hefyd i roi gwybod am unrhyw doriadau hysbys neu ganfyddedig o Ddeddf Cyllid Troseddol 2015, neu Ddeddf Llwgrwobrwyo 2010 a Pholisi Gwrth-Lwgrwobrwyo'r Brifysgol y gellir ei gyrchu drwy www.southwales.ac.uk.

1.7 Gall gweithwyr ddod o hyd i ganllawiau defnyddiol ar wefan Protect https://protect-advice.org.uk/.

2. CWMPAS

2.1. Mae'r weithdrefn hon yn cwmpasu holl aelodau cymuned y Brifysgol, gan gynnwys gweithwyr a chydweithwyr (sydd wedi'u diogelu o dan gyfreithiau chwythu'r chwiban), swyddogion, ymgynghorwyr, cyflenwyr, contractwyr, gweithwyr achlysurol a gweithwyr asiantaeth sy'n gweithio gyda'r Brifysgol a myfyrwyr sydd wedi'u cofrestru gyda'r Brifysgol a gall unrhyw aelod o'r cyhoedd sydd â phryderon hefyd godi pryderon o dan y weithdrefn hon (adwaenir y rhain ar y cyd fel "**Chwythwyr Chwiban**").

2.2. Os ydych yn gyflogai, nid yw'r polisi hwn na'r weithdrefn hon yn rhan o'ch contract cyflogaeth.

2.3. Dylai pryderon a godir dan y drefn hon ymwneud â'r pryderon difrifol canlynol a chael eu gwneud er lles y cyhoedd sef:

- gweithgaredd troseddol, gan gynnwys y rhai'n ymwneud â llwgrwobrwyo a llygredd a hwyluso osgoi trethi
- methu â chydymffurfio â rhwymedigaeth gyfreithiol

- camweinyddu cyfiawnder
- gweithred sy'n creu risg i iechyd a diogelwch
- gweithred sy'n achosi difrod i'r amgylchedd
- ymdrechion i guddio unrhyw un o'r uchod

Mae'r Brifysgol hefyd yn cadw'r hawl i ddefnyddio'r weithdrefn i ymchwilio i bryderon eraill a allai gael eu codi, cyn belled â'u bod er lles y cyhoedd, er nad oes rheidrwydd arni i wneud hynny. Gallai pryderon o'r fath gynnwys:

- camymddygiad neu amhriodoldeb neu dwyll ariannol
- camymddygiad academaidd neu broffesiynol
- methu â chydymffurfio â Rheoliadau'r Brifysgol
- ymdrechion i guddio unrhyw un o'r uchod

2.4. Ni ddylid defnyddio'r polisi hwn na'r weithdrefn hon ar gyfer cwynion sy'n ymwneud ag amgylchiadau personol person, megis y ffordd y mae cydweithiwr neu fyfyriwr wedi cael ei drin yn y gwaith/wrth astudio. Yn yr achosion hynny dylid defnyddio'r gweithdrefnau priodol; Er enghraifft:

i. Gweithdrefn Gwyno a'r Polisi Urddas yn y Gwaith i gydweithwyr sy'n dymuno codi cwyn bersonol;
ii. Gweithdrefnau Cwynion Myfyrwyr ar gyfer pryderon gan fyfyrwyr ar wahân i'r rhai a nodir uchod. Cwynion yn ymwneud ag unrhyw agwedd ar eu profiad fel myfyrwyr yn y Brifysgol, gan gynnwys pryderon am ddarpariaeth cyrsiau academaidd a gwasanaethau cysylltiedig a phryderon am gamwahaniaethu. Dylai myfyrwyr ddefnyddio'r Rheoliadau a Gweithdrefn Cwynion Myfyrwyr; a'r
iii. Weithdrefn Camymddwyn Academaidd ar gyfer pryderon academaidd.

Yn ogystal, ni ddylid defnyddio'r polisi hwn na'r weithdrefn hon i herio penderfyniadau a wnaed yn flaenorol o dan weithdrefnau eraill y Brifysgol; nac fel ffordd o ddelio â chamymddygiad/camymddwyn gan fyfyrwyr am faterion sydd eisoes wedi cael eu hymchwilio iddynt gan y Brifysgol trwy broses arall. Ni ddylid cyflwyno pryderon ymhellach o dan y polisi a'r weithdrefn hon os ydynt eisoes wedi cael sylw o dan weithdrefnau mewnol eraill, lle mae penderfyniadau wedi'u gwneud a phrosesau apeliadau wedi'u dihysbyddu.

2.5. Os ydych yn ansicr a yw mater penodol o fewn cwmpas y polisi hwn, dylech ofyn am gyngor gan Swyddfa Ysgrifennydd y Brifysgol (mae manylion cyswllt ar ddiwedd y polisi a'r weithdrefn hon).

3. EGWYDDORION

3.1. *Amddiffyniad*

Nod y polisi a'r weithdrefn hon yw cynnig amddiffyniad i Chwythwyr Chwiban yn y Brifysgol sy'n datgelu gwybodaeth yn unol â'r weithdrefn hon:

3.1.1. sydd yn eu tyb rhesymol nhw'n wir; ac

3.1.2. sy'n cael ei wneud er lles y cyhoedd.

3.2. *Cyfrinachedd*

3.2.1. Ein gobaith yw y bydd unigolion yn teimlo eu bod yn gallu lleisio pryderon chwythu'r chwiban yn agored o dan y polisi ac rydym yn eich annog i wneud hynny. Mae gwahaniaeth sylweddol rhwng cadw pryderon yn gyfrinachol a chodi pryder yn ddienw. Os ydych am godi eich pryder yn gyfrinachol, byddwn yn gwneud pob ymdrech i sicrhau na ddatgelir pwy ydych chi, heblaw am ymhlith y rhai sydd ynghlwm wrth ymchwilio i'ch pryderon. Bydd y Brifysgol yn trin pob datgeliad o'r fath mewn modd cyfrinachol a sensitif.

3.2.2. Bydd pryderon a godir yn ddienw yn cael eu hystyried ddim ond pan fo'r Brifysgol yn penderfynu gwneud hynny oherwydd y canlynol:

- difrifoldeb y materion a godir;
- hygrededd y pryder; a'r
- tebygolrwydd o gadarnhau'r honiad o ffynonellau y gellir eu priodoli

Bydd pob honiad dienw'n cael ei drosglwyddo i Ysgrifennydd y Brifysgol i'w ystyried, gan ymgynghori ag eraill fel y bo'n briodol. Efallai na fydd y Brifysgol yn gallu sefydlu'n iawn a yw eich honiadau'n gredadwy heb allu gofyn i chi am ragor o fanylion neu am eglurhad ar rai pethau, ac mae hyn yn ei gwneud hi'n anodd dod i benderfyniad gwybodus. Dyna pam y gofynnir i chi ystyried peidio ag adrodd materion yn ddienw.

3.2.3. Os ydych yn gofyn am i'r datgeliad fod yn gyfrinachol, gellir cadw'r unigolyn sy'n gwneud yr honiad yn gyfrinachol cyn belled nad yw'n llesteirio nac yn rhwystro unrhyw ymchwiliad. Os yw'n angenrheidiol i bobl sy'n rhan o'r ymchwiliad wybod pwy yw'r person sy'n codi'r pryder, byddwn yn trafod hyn gyda chi. Er enghraifft, gall y broses ymchwilio ddatgelu ffynhonnell y wybodaeth ac efallai y bydd angen i'r unigolyn sy'n gwneud y datgeliad roi datganiad fel rhan o'r dystiolaeth sydd ei hangen.

3.2.4. Dylai Chwythwyr Chwiban sy'n pryderu am ddial posib os datgelir pwy ydyn nhw godi eu pryderon gydag Ysgrifennydd y Brifysgol (neu'r Is-Ganghellor, Cadeirydd y Llywodraethwyr neu'r Cadeirydd Archwilio fel y bo'n briodol) ac yna gellir rhoi mesurau ar waith i gadw cyfrinachedd pan ganiateir hynny. Os ydych yn ansicr ynghylch materion cyfrinachedd, gallwch ofyn am gyngor gan yr Undebau Llafur neu'r Gaplaniaeth a gall unrhyw un ofyn am gyngor gan elusen chwythu'r chwiban y DU , 'Protect' - yr elusen chwythu chwiban annibynnol, sy'n cynnig llinell gymorth gyfrinachol (mae eu manylion cyswllt ar ddiwedd y weithdrefn hon).

3.3. ***Undebau Llafur***

Nid bwriad y weithdrefn hon yw disodli trefniadau codi pryderon yr Undebau Llafur cydnabyddedig trwy'r gweithdrefnau ymgynghori a gytunwyd ar y cyd.

4. GWEITHDREFN

4.1. ***Cychwyn y Weithdrefn***

4.1.1. Os ydych chi'n poeni am unrhyw fath o gamymddygiad sy'n dod o dan y polisi hwn a'r weithdrefn hon, dylai cydweithwyr fel arfer godi'r mater gyda'u rheolwr llinell, dylai myfyrwyr godi'r mater gyda'u harweinydd cwrs neu reolwr pwnc academaidd, cyflenwyr gyda'u rheolwr perthynas ac aelodau o'r cyhoedd gyda Swyddfa Ysgrifennydd y Brifysgol. Os ydych yn teimlo na allwch ddweud wrth y person

uniongyrchol gyfrifol, am ba reswm bynnag, dylech godi'r mater gyda'r rheolwr/arweinydd uchaf nesaf neu Ysgrifennydd y Brifysgol. Gallwch ddweud wrthyn nhw'n bersonol neu gallwch wneud yn ysgrifenedig os yw'n well gennych. Efallai y byddan nhw'n gallu cytuno ar ffordd o ddatrys eich pryder yn gyflym ac yn effeithiol. Mewn rhai achosion gallant gyfeirio'r mater at y Weithdrefn Chwythu'r Chwiban ffurfiol a nodir isod.

4.1.2. Os yw'r mater yn fwy difrifol, neu os ydych yn teimlo nad yw'r person cyfrifol priodol wedi mynd i'r afael â'ch pryder, neu ei bod yn well gennych beidio â'i godi gyda nhw am unrhyw reswm, gallwch wneud datgeliad gwarchodedig. Dylai'r Chwythwyr Chwiban gyflwyno eu datgeliad ffurfiol yn ysgrifenedig i Ysgrifennydd y Brifysgol. Caiff pob pryder ei:

- Gydnabod;
- Cofnodi; a'i
- Adolygu ac ymchwilio iddo pan yn briodol.

4.1.3. Os yw'r datgeliad yn ymwneud ag Ysgrifennydd y Brifysgol neu aelod o'r Weithrediaeth, dylid ei godi'n uniongyrchol gyda'r Is-Ganghellor. Os yw'r datgeliad yn ymwneud â'r Is-Ganghellor neu â llywodraethwr, dylid ei godi'n uniongyrchol gyda Chadeirydd Bwrdd y Llywodraethwyr. Os yw'r datgeliad yn cynnwys y Cadeirydd yn bersonol, dylid ei gyfeirio at Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio. Cyfeirir at bob un o'r derbynwyr hyn fel y Swyddog Chwythu'r Chwiban.

4.1.4. Dylech ddatgan yn glir eich bod yn codi eich pryderon o dan y Polisi a Gweithdrefn Chwythu'r Chwiban hyn ac yna egluro beth yw eich pryderon. Cynhwyswch yr holl ffeithiau a dyddiadau allweddol, ac enwau'r bobl dan sylw. Bydd yr ymgynghoriad yn cynnwys yr Aelod Gweithrediaeth sy'n gyfrifol am y maes busnes dan sylw oni bai eu bod wedi'u cynnwys yn yr honiadau neu'n destun gwrthdaro buddiannau. Bydd natur yr ymchwiliad ffurfiol yn dibynnu ar natur y mater a godwyd a gall olygu:

- ymchwiliad mewnol
- penodi rhywun neu rywrai annibynnol allanol i gynnal ymchwiliad
- cyfeirio at yr Heddlu neu gorff allanol arall

4.1.5. Bydd gan y Swyddog Chwythu'r Chwiban hawl i ofyn i'r Chwythwr Chwiban ddarparu tystiolaeth ddogfennol i gefnogi sylwedd y datgeliad. Efallai y byddant yn trefnu un neu ragor o gyfarfodydd gyda chi i drafod eich pryder. Cewch ddod â chydweithiwr neu gynrychiolydd undeb i unrhyw gyfarfodydd o dan y polisi hwn. Rhaid i'ch cydymaith barchu cyfrinachedd eich datgeliad ac unrhyw ymchwiliad dilynol.

4.1.6. Byddwn yn ysgrifennu crynodeb o'ch pryder ac yn rhoi copi i chi ar ôl y cyfarfod. Byddwn hefyd yn anelu at roi syniad i chi o sut rydym yn bwriadu delio â'r mater gan roi rhesymau dros y penderfyniad hwn.

4.2. ***Dim Gweithredu***

4.2.1. Os bydd y Swyddog Chwythu'r Chwiban yn penderfynu nad oes unrhyw gamau i'w rhoi ar waith, yna gall y Chwythwr Chwiban ofyn am adolygiad i un o'r uwch Swyddogion Chwythu'r Chwiban eraill a nodir yn 4.1.3 o fewn 20 diwrnod gwaith o dderbyn y llythyr y cyfeirir ato ym mharagraff 4.1.6 uchod.

4.2.2. Bydd Swyddog Adolygu Chwythu'r Chwiban yn adolygu'r penderfyniad ac efallai y bydd am ofyn i'r Chwythwr Chwiban am wybodaeth a dogfennau ychwanegol i gynorthwyo gyda'r adolygiad. Bydd yr Swyddog Adolygu Chwythu'r Chwiban yn hysbysu'r Chwythwr Chwiban yn ysgrifenedig o ganlyniad yr adolygiad.

4.2.3. Os cynhelir y penderfyniad cynharach i beidio â rhoi camau ar waith, dyna fydd diwedd y mater.

4.3. ***Ymchwilio***

4.3.1. Pan mai cynnal ymchwiliad fydd y penderfyniad, y Swyddog Chwythu'r Chwiban fydd yn gyfrifol am benodi'r ymchwilydd ac am osod cylch gorchwyl yr ymchwiliad, er bod y rhain yn destun trafod a chytundeb gyda'r ymchwilydd. O ganlyniad i'r ymchwiliad hwn, neu yn lle'r ymchwiliad, gallai gweithdrefnau mewnol eraill gael eu rhoi ar waith gan y Swyddog Chwythu'r Chwiban pe byddai ymchwiliad o dan weithdrefn wahanol yn fwy priodol.

4.3.2. Wrth benodi ymchwilydd dylai'r Swyddog Chwythu'r Chwiban ystyried:

- Natur y mater a godwyd
- Unrhyw arbenigedd penodol sydd ei angen
- Ymchwilydd o ba lefel sydd ei angen
- Gallu'r ymchwilydd i ystyried y mater heb ragfarn wirioneddol neu bosibl

4.3.3. Bydd yr ymchwiliad yn cael ei gynnal mor sensitif a chyflym â phosib. Bydd yr ymchwilydd yn cynnal cyfweliadau perthnasol gyda thystion posibl fel y bo'n briodol. Bydd hyn yn cynnwys y Chwythwr Chwiban a wnaeth y datgeliad gwreiddiol. Oherwydd y pryderon rydych wedi eu codi, mae'n debygol y bydd unigolion eraill yn cael eu cyfweld fel rhan o'ch cwyn Chwythu'r Chwiban, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i'r unigolyn y codwyd y pryder yn ei erbyn. Bydd unrhyw unigolyn sy'n cael ei gyfweld o dan y weithdrefn hon yn cael cefnogaeth gyfartal ac mae hawl ganddynt i ddod â chydweithiwr neu gynrychiolydd undeb llafur i unrhyw gyfarfodydd ac i estyn allan at unrhyw unigolyn sydd wedi'i hyfforddi'n briodol o dan y polisi hwn.

4.3.4. Bydd nodiadau ysgrifenedig o'r holl gyfweliadau yn cael eu paratoi a bydd pawb y cyfwelir â nhw yn cael cyfle i adolygu'r nodiadau o ran cywirdeb cyn iddynt gael eu cwblhau.

4.3.5. Gellir gweithredu ar unrhyw dystiolaeth a ddaw o ganlyniad i ymchwiliadau o dan y Polisi hwn fel a ganlyn:

i. datgeliadau'n ymwneud â honiad o gamymddwyn, camwahaniaethu neu aflonyddu gan aelod o staff (*Rheoliadau a Gweithdrefn Cwynion Myfyrwyr* neu *Weithdrefnau Disgyblu neu Ddiswyddo Staff*);

ii. datgeliadau sy'n cynnwys honiad o aflonyddu, bwlio, triniaeth annheg, erledigaeth neu gamwahaniaethu ar sail hunaniaeth gan fyfyriwr (*Polisi Urddas yn y Gwaith, Polisi Urddas wrth Astudio, Rheoliadau a Gweithdrefn Cwynion Myfyrwyr, Gweithdrefn Ymddygiad Myfyrwyr*);

iii. datgeliadau yn ymwneud â honiad o gamymddwyn gan fyfyriwr (*Gweithdrefn Ymddygiad Myfyrwyr*).

4.3.6. Bydd yr ymchwilydd a/neu'r Swyddog Chwythu'r Chwiban yn anelu at roi gwybod i'r Chwythwr Chwiban am gynnydd yr ymchwiliad a'i amserlen debygol. Fodd bynnag, weithiau gall yr angen am gyfrinachedd eu hatal rhag rhoi manylion penodol i'r Chwythwr Chwiban am yr ymchwiliad neu unrhyw gamau a roddir ar waith o ganlyniad, gan fod angen i'r Brifysgol ddiogelu cyfrinachedd a chydymffurfio â rhwymedigaethau cyfreithiol. Deellir y gallai hyn fod yn rhwystredig a pheri pryder i chi o ran oes unrhyw gamau wedi'u rhoi ar waith, ac os digwydd hyn bydd unigolyn priodol yn egluro pam mae'r Brifysgol yn gweithredu fel hyn. Bydd y Chwythwr Chwiban yn cael gwybod a ddylen nhw drin unrhyw wybodaeth am yr ymchwiliad yn gyfrinachol.

4.3.7. Bydd yr ymchwilydd yn paratoi adroddiad yn amlinellu:

- cylch gorchwyl yr ymchwiliad
- y fethodoleg a fabwysiadwyd a'r rhesymau pam
- cadarnhad o unrhyw benderfyniadau a wnaed ar ffeithiau, gan gynnwys y dystiolaeth a ystyriwyd, barn ymchwilwyr ar rym y dystiolaeth a'r safonau prawf a ddefnyddiwyd
- unrhyw argymhellion o ran gweithredu, fel y bo'n briodol – gall hyn gynnwys cychwyn gweithdrefn arall megis y weithdrefn ddisgyblu

5. ADRODD

5.1. Bydd yr ymchwilydd yn ystyried a oes modd rhannu'r adroddiad gyda'r Chwythwr Chwiban a wnaeth y datgeliad gwreiddiol ac unrhyw berson neu bersonau a gyhuddwyd o gamweddau yn y wybodaeth ddatgelu. Bydd hyn yn dibynnu ar gynnwys yr adroddiad a allai gynnwys gwybodaeth gyfrinachol a data personol. Os yw'n bosibl, bydd adroddiad neu grynodeb wedi'i olygu yn cael ei ddarparu i'r Chwythwr Chwiban a wnaeth y datgeliad gwreiddiol.

5.2. Efallai y bydd angen cyfeirio'r adroddiad at bolisïau neu weithdrefnau eraill y Brifysgol er mwyn rhoi camau pellach ar waith, gan gynnwys camau disgyblu.

5.3. Bydd adroddiadau ar ganlyniadau ymchwiliadau a wneir o dan y gweithdrefnau hyn gan gynnwys unrhyw argymhellion ar gyfer gweithredu yn cael eu rhoi i'r uwch arweinwyr perthnasol, Pwyllgorau'r Brifysgol a/neu Fwrdd y Llywodraethwyr. Mewn rhai achosion, gallai fod angen cyfeirio'r mater at awdurdod allanol i ymchwilio ymhellach, e.e. Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru, neu'r cyrff a restrir yn y Ddeddf Datgelu er Lles y Cyhoedd.

6. OS NAD YDYCH YN FODLON

6.1. Er na allwn bob amser warantu'r canlyniad a ddymunech, byddwn yn ceisio delio â'ch pryder yn deg ac mewn ffordd briodol. Trwy ddefnyddio'r weithdrefn hon gallwch ein helpu i gyflawni hyn.

6.2. Os nad ydych yn fodlon â'r modd y mae'r Brifysgol wedi cynnal yr ymchwiliadau, gallwch fynd â'r mater i Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio i'w ystyried ymhellach. Os deliwyd â'ch pryderon gwreiddiol gan Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio mae gennych chi hawl i gyfeirio pryderon at un o'r cyrff perthnasol y cyfeirir atynt ym mhwynt 5.3.

7. TRAFODAETHAU ALLANOL

7.1. Nod y polisi hwn a'r weithdrefn hon yw darparu mecanwaith mewnol ar gyfer adrodd, ymchwilio a datrys unrhyw gamymddwyn yn y gweithle a chymuned y Brifysgol. Yn y rhan fwyaf o achosion ni ddylech deimlo bod angen cynnwys unrhyw un allanol.

7.2. Mae'r gyfraith yn eich amddiffyn rhag sgil-effeithiau pan allai fod yn briodol, mewn rhai amgylchiadau, i chi roi gwybod am eich pryderon i gorff allanol fel rheoleiddiwr. Yn anaml iawn, os o gwbl, y bydd yn briodol tynnu sylw'r cyfryngau. Rydym yn eich annog yn gryf i ofyn am gyngor cyn adrodd am bryder wrth unrhyw un allanol. Mae elusen annibynnol Chwythu'r Chwiban, Protect, yn gweithredu llinell gymorth gyfrinachol. Mae ganddynt hefyd restr o reoleiddwyr priodol i adrodd am fathau penodol o bryderon wrthyn nhw. Mae eu manylion cyswllt ar ddiwedd y polisi hwn. O ran rheoleiddwyr allanol bydd hyn yn dibynnu ar natur y pryder. Fodd bynnag, gall y rhain gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig, i'r canlynol:

- Comisiwn yr Elusennau
- Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC). CCAUC yw'r corff rheoleiddio ar gyfer darpariaeth addysg uwch yng Nghymru
- Y Swyddfa Gartref
- Awdurdod Rheoleiddio perthnasol yr Heddlu
- Y Cyngor Ymchwil perthnasol
- Cyrff ariannu allanol

7.3. Mae pryderon chwythu'r chwiban fel arfer yn ymwneud ag ymddygiad ein cydweithwyr, ond efallai y byddant weithiau'n ymwneud â gweithredoedd trydydd parti, fel cwsmer, cyflenwr, myfyriwr, partner neu ddarparwr gwasanaeth. Mewn rhai amgylchiadau bydd y gyfraith yn eich amddiffyn os byddwch yn codi'r mater gyda'r trydydd parti yn uniongyrchol. Fodd bynnag, rydym yn eich annog i adrodd pryderon o'r fath o fewn y Brifysgol yn gyntaf.

8. AMDDIFFYN A CHEFNOGI CHWYTHWYR CHWIBAN

8.1. Mae'n ddealladwy bod Chwythwyr Chwiban weithiau'n poeni am sgil-effeithiau posib. Ein nod yw annog diwylliant agored a byddwn yn cefnogi pobl sy'n codi pryderon dilys o dan y polisi hwn, hyd yn oed os daw'n amlwg eu bod wedi camgymryd.

8.2. Rhaid i Chwythwyr Chwiban beidio â dioddef unrhyw driniaeth niweidiol o ganlyniad i godi pryder. Mae triniaeth niweidiol yn cynnwys erledigaeth, diswyddo, camau disgyblu, bygythiadau neu driniaeth anffafriol arall sy'n gysylltiedig â chodi pryder.

- Rhaid i unigolion yn y Brifysgol beidio â bygwth na dial yn erbyn Chwythwyr Chwiban mewn unrhyw ffordd o ganlyniad i godi pryder.
- Gellir ystyried erledigaeth neu driniaeth niweidiol arall i weithiwr, myfyriwr neu aelod arall o'r Brifysgol, o ganlyniad i'r person hwnnw'n codi pryderon o dan y polisi hwn, yn drosedd ddisgyblu ddifrifol o dan weithdrefn ddisgyblu'r Brifysgol.
- Os ydych yn credu eich bod wedi dioddef unrhyw driniaeth o'r fath, dylech roi gwybod i Swyddog Chwythu'r Chwiban ar unwaith. Os nad yw'r mater yn cael ei unioni, dylech ei godi'n ffurfiol gan ddefnyddio Gweithdrefn Gwyno berthnasol y Brifysgol neu gydag Ysgrifennydd y Brifysgol os nad ydych yn gydweithiwr.
- Gall unigolion sy'n achosi triniaeth niweidiol hefyd wynebu camau cyfreithiol gan y chwythwr chwiban o dan yr amgylchiadau hyn.

Honiadau Anwir

8.3. Os yw unigolyn yn gwneud honiad y credant yn rhesymol ei fod yn sylweddol wir, ond nad yw'n cael ei gadarnhau drwy ymchwiliad dilynol, ni fydd unrhyw gamau yn cael eu rhoi ar waith yn erbyn yr unigolyn hwnnw. Fodd bynnag, os bydd unigolyn yn gwneud honiadau neu ddatgeliadau maleisus, athrodus neu drallodus mewn drwg ewyllys, gellir gweithredu yn erbyn yr unigolyn dan sylw a allai gynnwys camau disgyblu yn erbyn cydweithwyr neu fyfyrwyr, a gall y Brifysgol ystyried ei hawliau cyfreithiol yn achos athrod neu ddifenwad.

Manylion cyswllt

Ysgrifennydd y Brifysgol **Is-Ganghellor** **Cadeirydd y Llywodraethwyr** **Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio**	E-bost: Governance@southwales.ac.uk Post: Llywodraethiant, Swyddfa'r Brifysgol, Prifysgol De Cymru, Pontypridd, CF37 1DL (Nodwch Preifat a Chyfrinachol)
Protect (Elusen chwythu'r chwiban annibynnol)	Llinell gymorth: 0203 117 2520 E-bost: whistle@pcaw.co.uk Gwefan: https://protect-advice.org.uk/

Cwestiynau Cyffredin

Mae gan y polisi hwn weithdrefnau anffurfiol a ffurfiol, pam?

Mae darparu gweithdrefnau anffurfiol a ffurfiol yn rhan o'r polisi yn rhoi cyfle i ddatrys pryderon yn anffurfiol heb fod angen dilyn gweithdrefn ffurfiol a chofnodi'r canlyniad pan fo hyn yn ateb anghenion y person â phryder.
Bwriad y weithdrefn anffurfiol yw galluogi pryderon i gael eu datrys yn gyflym ac yn lleol ac mae'n adlewyrchu'r hyn sydd eisoes yn digwydd mewn rhyngweithio o ddydd i ddydd lle gall gweithwyr, myfyrwyr, a chyflenwyr godi pryderon gyda'u rheolwr llinell, Arweinydd Cwrs/Pennaeth Pwnc neu eu Rheolwr Perthynas.

Ydy hyn yn golygu bod gan reolwyr llinell ac arweinwyr cyrsiau ddyletswyddau newydd?

Does dim disgwyl unrhyw newidiadau yn y ffordd mae pryderon anffurfiol yn cael eu codi. Mae'r newidiadau yn y ddogfen yn adlewyrchu'r dull presennol.

Beth mae hyn yn ei olygu i reolwyr llinell ac arweinwyr cyrsiau sydd heb eu hyfforddi i ddelio â chwythu'r chwiban?

Nod y weithdrefn yw annog diwylliant lle gellir codi pryderon gyda rheolwyr neu arweinwyr cyrsiau yn anffurfiol fel y gellir datrys materion yn gyflym ac yn lleol, os yw'n briodol. Mae hon eisoes yn broses heb ei dogfennu gan y Brifysgol.
Os yw'r rheolwr neu'r arweinydd cwrs yn credu bod mater ehangach o fudd cyhoeddus i'w ystyried, gallant hefyd ddefnyddio'r weithdrefn chwythu'r chwiban i godi'r pryder yn ffurfiol.

Sut mae ymgysylltu â'r drefn ffurfiol?

Os na allwch ddatrys y pryder yn anffurfiol, neu os nad yw'n briodol gwneud hynny (e.e. rydych chi'n dymuno i'r pryder ac unrhyw ddatrysiad gael eu cofnodi'n ffurfiol), yna ar yr amod bod y pryder yn bodloni'r prawf budd cyhoeddus a'ch bod yn credu bod y pryder yn un dilys gellir ei godi gyda'r swyddogion chwythu'r chwiban enwebedig a nodir yn y polisi.
Bydd y swyddog chwythu'r chwiban yn cydnabod y pryder, yn ei gofnodi, yn adolygu a yw'n cyrraedd y trothwy ar gyfer ymchwilio'n ffurfiol ac yn trefnu ymchwiliad lle bo hynny'n briodol.

Ydy hyn yn rhan o'r prosesau cwynion myfyrwyr sydd eisoes ar waith yn PDC?

Mae'r polisi hwn wedi'i gynllunio ar gyfer pryderon budd cyhoeddus ac nid yw'n weithdrefn ar gyfer cwynion unigol/personol.
Mae'r polisi wedi'i ehangu i gynnwys myfyrwyr a chyflenwyr i sicrhau bod gan fwy o bobl fynediad at chwythu'r chwiban, ond ni fydd pryder yn cael ei drin fel chwythu'r chwiban os nad yw'n bodloni'r prawf budd cyhoeddus. Mae gan y Brifysgol bolisïau, sy'n eistedd y tu allan i'r polisi hwn, ar gyfer myfyrwyr a staff sydd am godi pryderon personol.

Beth yw'r prawf budd cyhoeddus?

Mae amddiffyniad Chwythwyr Chwiban ar gael i'r rhai sy'n credu'n rhesymol bod eu datgeliad er budd y cyhoedd. Mae budd y cyhoedd neu fudd cyhoeddus yn golygu bod bryder yn effeithio ar y cyhoedd yn gyffredinol (neu gyfran o'r cyhoedd) ac mae ar wahân i bryderon preifat sy'n effeithio ar unigolyn yn unig. Mae amddiffyniad chwythu'r chwiban yn fwy tebygol o fod ar waith ar gyfer pryderon budd cyhoeddus sy'n cael effaith ehangach.

Pam mae'r polisi hwn yn cynnwys cyflenwyr a sut mae'n effeithio arnyn nhw?

Bydd ychwanegu cyflenwyr at y polisi yn cynnig cyfle iddyn nhw godi pryderon gan roi mwy o dryloywder i ni o ran y rhai rydyn ni'n gweithio gyda nhw. Bydd yn rhaid i gyflenwyr barhau i weithredu'n unol ag unrhyw gontract sydd gennym gyda nhw. Dim ond gydag ôl-effeithiau o ganlyniad i godi pryderon chwythu'r chwiban y mae'r hawl i amddiffyniad rhag ôl-effeithiau yn berthnasol, ac ni fydd hyn yn newid y gofynion o ran gweithredu'n unol â'n contract.

Mae'r polisi hwn i'w ddefnyddio gan fyfyrwyr sydd wedi cofrestru gyda'r Brifysgol, a yw'n cwmpasu'r rhai sy'n astudio mewn colegau partner?

Ydy, mae'r polisi hefyd yn cynnwys unrhyw aelodau o'r cyhoedd sy'n delio â PDC ac sydd â phryderon y bydden nhw'n hoffi eu codi er budd cyhoeddus. Os yw myfyrwyr yn ansicr a ydyn nhw'n cael eu hystyried fel rhai sydd "wedi cofrestru" bydd modd iddyn nhw godi pryder o dan y drefn hon fel aelod o'r cyhoedd.

Ydy defnyddio'r polisi hwn yn orfodol?

Nid yw defnyddio'r polisi hwn yn orfodol, ac nid yw wedi'i fwriadu mewn unrhyw ffordd i effeithio ar hawliau eraill sydd ar gael i unigolion, na'u newid. Polisi dewisol yw hwn, sydd â'r bwriad o gynorthwyo unigolion i godi pryderon er budd cyhoeddus, pan fônt yn dewis gwneud hynny.

Oes ffurflen i gyd-fynd â'r polisi hwn?

Nac oes, does dim ffurflen ragnodedig.

Ble gallaf i gael cymorth ychwanegol?

Gall Swyddfa Ysgrifennydd y Brifysgol gynnig cymorth ac arweiniad ynghylch defnyddio'r weithdrefn ac ai dyma'r weithdrefn iawn ar gyfer eich pryder. Os oes angen cymorth personol arnoch, mae gwasanaethau lles a Chaplaniaeth y Brifysgol ar gael yn ogystal â'r Cynllun Cymorth i Weithwyr. Mae cefnogaeth annibynnol ar gael drwy'r Undebau Llafur a'r elusen protect.

Mae manylion cyswllt wedi'u nodi ar ddiwedd y polisi ac mae manylion gwasanaethau cymorth y Brifysgol ar gael yn www.decymru.ac.uk